# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

**13 Gorffennaf 2022**

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Dr R Heath Davies, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James a Mr G Jones, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.55am)

**1. Ethol Cadeirydd**
**Penderfynwyd yn unfrydol** ethol Dr R Heath-Davies yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

Diolchodd Dr Heath-Davies i'r Pwyllgor am ei hethol yn Gadeirydd. Yna cymerodd y Gadair am weddill y cyfarfod.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**
**Penderfynwyd yn unfrydol** ethol y Cynghorydd S Alderman yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Nid oedd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**4. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

## 5. Cofnodion
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2022 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2022.

## 6. Materion yn Codi

a) Twristiaeth Gynaliadwy (Cofnod 4)
Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod adroddiad Archwilio Cymru sy'n amlinellu'r negeseuon sy'n gyffredin i'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i gyhoeddi mewn gwirionedd y diwrnod hwnnw, a chytunodd i'w ddosbarthu i'r Pwyllgor.

b) Adroddiad Archwilio Mewnol 2021/22 (Cofnod 9)
Nodwyd bod y cofnodion yn cyfeirio at gyflwyno adroddiad gan y swyddogion oedd yn rhoi diweddariad ar yr argymhellion oedd wedi deillio

o’r adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn 2020/21 ond oedd heb eto eu cyflawni. Ymddiheurodd y Prif Weithredwr na fu'n bosibl i adroddiad gael ei gyflwyno yn y cyfarfod hwn ac y byddai'r adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau neu ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf.

**Nodwyd.**

[Gyda chytundeb y Pwyllgor, cynigiodd y Cadeirydd y dylid ystyried adroddiad 16/22 Datganiad o Gyfrifon yn gyntaf, gan fod Jason Blewitt o Archwilio Cymru yn bresennol.]

## 7. Datganiad o Gyfrifon

Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod drafft o gyfrifon yr Awdurdod 2021/22 wedi'i drosglwyddo i Archwilio Cymru ar 13 Mehefin 2022 a bod y swyddogion yn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r Archwiliad ar hyn o bryd. Rhagwelwyd y byddai adroddiad ISA260 yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd yr wythnos, ac yn cael ei gyflwyno i’r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 27 Gorffennaf 2022.

Roedd Jason Blewitt o Archwilio Cymru hefyd yn bresennol a diolchodd i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith, gan nodi bod paratoi'r cyfrifon yn dasg enfawr a gwerthfawrogwyd eu cymorth gyda'r archwiliad yn fawr. Cadarnhaodd bod Adroddiad drafft ISA260 wedi'i gytuno gyda’r swyddogion ac y byddai hwn yn rhoi barn archwilio ddiamod heb unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro na diwygiadau sylweddol.

Yna cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y cyfrifon, oedd yn dangos bod yr incwm a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod bron wedi dyblu o’i gymharu â 2020/21 oherwydd y cynnydd mewn gwerthiannau nwyddau masnach, derbyniadau, ac incwm meysydd parcio oedd wedi cynyddu oherwydd cyflwyno codi tâl mewn pedwar maes parcio ychwanegol. Nodwyd bod ffioedd cynllunio i lawr ar y flwyddyn flaenorol, er gwaethaf y cynnydd yn nifer y ceisiadau, gan fod cais arbennig o fawr wedi bod yn 2020/21. Roedd gwariant wedi codi, ond roedd y ffigurau yn dal yn unol â’r ffigurau cyn y pandemig.

Roedd y cyfrif refeniw cyffredinol yn dangos gwarged gweithredu net o £662,000 (yn hytrach na £664,000 fel y nodwyd) oedd wedi arwain at drosglwyddo £473,00 i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a chynnydd o £191,000 yn y cronfeydd cyffredinol wrth gefn. Nodwyd manylion y gwahanol feysydd gwasanaeth, ac roedd y rhain yn cynnwys gorwariant a thanwariant.

Roedd y cyfrifon hefyd yn rhoi manylion am y rhaglen gyfalaf, oedd wedi bod yn sylweddol oherwydd gwariant o dros £filiwn ar bwyntiau gwefru Cerbydau Trydan dros ddwy flynedd.  Fodd bynnag roedd gwariant wedi

gostwng yn 2021/22 oherwydd gwariant sylweddol ar adnewyddu meysydd parcio yn 2020/ 21.

Yn olaf, roedd y fantolen gryno yn dangos bod asedau sefydlog wedi'u hailbrisio ar gyngor Archwilio Cymru oherwydd y cynnydd mewn costau ailadeiladu. Hefyd bu gostyngiad yn yr atebolrwydd pensiwn o ganlyniad i'r adferiad parhaus yng ngwerth yr asedau pensiwn.

Tynnodd y Rheolwr Cyllid sylw'r Aelodau at y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd, ac roedd y tabl ar dudalen 89 o'r papurau yn dangos sut oedd y gwarged a gynhyrchwyd eleni wedi'i ddyrannu drwy greu cronfeydd wrth gefn ar gyfer Dyfarniad Cyflogau ac Ailraddio, Datgarboneiddio ac Ailddatblygu'r Ystafell Werdd.

Cytunodd yr Aelodau bod y trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn synhwyrol, yn enwedig o ystyried prisiau cynyddol adeiladu a phryderon ynghylch recriwtio. Rhoddodd y swyddogion sicrwydd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar Ailddatblygu'r Ystafell Werdd pan fyddai'r contract ar gyfer y prosiect yn cael ei ddyfarnu. O ran recriwtio, nodwyd bod problemau yn codi ar draws y wlad, yn enwedig mewn awdurdodau llai.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr holl Aelodau, i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith caled yn paratoi'r cyfrifon, a diolchodd hefyd i'r Archwilydd am ei waith.

**Nodwyd**

**8. Adroddiad ar y Perfformiad yn y Cyfnod yn diweddu 31 Mai 2022**

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2022/23 oedd â'r nod o gefnogi'r Awdurdod wrth iddo symud i atgyfnerthu ei weithgareddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei Amcanion Llesiant newydd a'i flaenoriaethau lefel uchel. Gan fod yr Awdurdod yn mynd drwy gyfnod o newid, roedd fframwaith mesur perfformiad trosiannol wedi'i roi ar waith ar gyfer 2022/23 oedd yn cael ei fonitro drwy system yr Awdurdod o gyflwyno Adroddiadau ar Berfformiad.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Mai 2022. Oherwydd y cyfnod adrodd, dim ond yn wythnosol ac yn fisol yr oedd data ystadegol ar ffrydiau gwaith ar gael ar gyfer data a fewnbynnwyd i'r System Adrodd Perfformiad. Byddai ystadegau Chwarter 1 ar gyfer setiau data a gofnodir yn chwarterol ar y system yn cael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.

Roedd yr Aelodau'n bryderus ynghylch peth o'r oedi a amlygwyd yn adroddiad y swyddogion, yn enwedig o ran cerbydau trydan oedd yn

effeithio ar uchelgeisiau carbon sero net yr Awdurdod a hefyd lefelau salwch staff, yn enwedig os yw o ganlyniad i straen sy'n gysylltiedig â gwaith.

Ymateb y Prif Weithredwr oedd bod prinder cerbydau trydan yn broblem gyffredin. Fodd bynnag roedd Sector Cyhoeddus Cymru yn dod at ei gilydd i geisio cael rhywfaint o fantais gyda chyflenwyr drwy gontractio am gerbydau trydan fel un. O ran salwch staff, dywedodd fod hyn oherwydd amrywiaeth o resymau, gan gynnwys Covid. Cydnabyddwyd bod rhywfaint o salwch oherwydd straen, ac roedd gwaith yn ôl pob tebyg yn ffactor a gyfrannodd at sawl achos. Fodd bynnag roedd amgylchiadau unigol yn cael eu rheoli fesul achos ac roedd cymorth ar gael drwy'r gwasanaeth cwnsela. Ychwanegodd, o ran newid strwythur y sefydliad, fod hyn yn dod yn ei flaen yn dda, a bod yr Awdurdod yn gweithredu'n dda yn y cyfamser. Byddai gwaith ar y cynlluniau cyflawni yn dechrau yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, unwaith y byddai'r strwythur newydd a'r penaethiaid swyddogaethol newydd yn eu lle.

**Nodwyd**

## 9. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Ceisiadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth 2021/22

Roedd yr adroddiad yn egluro'r gwahanol fathau o geisiadau a wnaed i'r Awdurdod ac yn amlinellu'r prif themâu a gafodd sylw yn 2021/22, gan fynd ymlaen i nodi tueddiadau yn y niferoedd a dderbyniwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd yr ymatebwyd i'r rhan fwyaf o geisiadau o fewn yr amserlenni statudol, ond cyfyngedig oedd y capasiti staff i ymdrin â'r ceisiadau, ac roedd Covid 19 wedi golygu oedi cyn ymateb i rai ceisiadau. Fodd bynnag, roedd prosesau gweinyddol wedi'u diwygio i geisio atal problemau yn y dyfodol.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am bapur diddorol a llawn gwybodaeth, ond mynegwyd peth pryder pe bai nifer y ceisiadau yn parhau i gynyddu, y byddai angen adnoddau ychwanegol o bosibl, neu bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi yn wahanol, i sicrhau y gellir ymateb yn amserol. Dywedodd y swyddogion bod amrywiol ddulliau o wneud hyn, yn dibynnu ar natur y cais a llwyth gwaith yr unigolyn allai ymdrin â'r cais, ac awgrymodd yr Aelodau y gallai monitro faint o amser a gymerir i ymateb i geisiadau unigol helpu i amlygu materion capasiti.

**Nodwyd.**

## 10. Cofrestr Risg

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y gofrestr risg ddiweddaraf, oedd wedi'i hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth. Nodwyd bod tri newid wedi'u

gwneud i'r Gofrestr ers y cyfarfod diwethaf, ac eglurwyd y tri, a rhestrwyd y chwe prif risg i'r Awdurdod, yn seiliedig ar ystyried risg gynhenid.

Gofynnodd yr Aelodau am edrych ar eiriad risg 45 (Anawsterau recriwtio staff) er mwyn clustnodi'r goblygiadau yn well o fethu â rheoli'r risg, a chytunodd y swyddog i adolygu hyn. Hefyd roedd llawer o bryder ynglŷn â risg 37 (Clefyd coed ynn) o ystyried nifer y coed yr effeithiwyd arnynt a'r cynnydd yn yr haint, yn ogystal â'i effaith ar dirwedd y Parc Cenedlaethol. Atebodd y Prif Weithredwr bod y gofrestr yn nodi'r mesurau yr oedd yr Awdurdod wedi'u cymryd i reoli'r risg i'w weithrediadau, fodd bynnag byddai'n gweld a oedd y swyddogion o'r farn bod y risg sy'n anodd cael gwared arni wedi cynyddu. Ychwanegodd bod y Gofrestr bresennol yn canolbwyntio ar effeithiau risgiau ar Iechyd a Diogelwch, ond yn yr adolygiad mawr nesaf, byddai effeithiau newid hinsawdd a'r clefyd coed ynn ar y Parc Cenedlaethol ei hun yn cael eu cynnwys.

**Nodwyd.**

## 11. Perfformiad y Gyllideb

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid fanylion yr incwm a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod yn chwarter cyntaf y flwyddyn, ac roedd tabl wedi'i ddosbarthu i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod. Roedd y tabl yn dangos bod chwarter cyntaf y flwyddyn wedi bod yn brysur, gan fod y Pasg wedi dod o fewn y chwarter, gyda gwerthiant nwyddau masnach, ffioedd mynediad, incwm Caffi Caeriw ac incwm meysydd parcio i gyd yn uwch na'r gyllideb. Roedd yr Aelodau yn falch o weld y ffigurau, ond gofynnwyd pa mor broffidiol oedd canolfannau'r Awdurdod. Atebodd y Prif Weithredwr nad oedd y safleoedd yn cael eu rhedeg fel endidau masnachol, gan gydnabod bod yna linell denau rhwng gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu yn y modd hwnnw a chystadlu â busnesau preifat. Ychwanegodd y Rheolwr Cyllid y byddai adroddiadau'r adrannau yn y datganiad o gyfrifon yn rhoi syniad o ba mor dda yr oedd y Canolfannau yn perfformio.

Nodwyd hefyd bod yr Awdurdod wedi derbyn cadarnhad yn ddiweddar o £2.5 miliwn o gyllid cyfalaf o gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, ac y byddai rhagor o fanylion am hyn yn cael eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol agos.

**Nodwyd.**

## 12. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus

Gofynnodd y Prif Weithredwr a oedd unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp, neu a oedd unrhyw feysydd y dymunai'r Pwyllgor ei hun dderbyn

adroddiadau arnynt. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am gostau staffio tymor hwy o ganlyniad i ailstrwythuro'r sefydliad a'r adolygiad o gyflogau a graddfeydd yn ogystal â'r adroddiad ar yr argymhellion hynny oedd heb eu gweithredu yn deillio o adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn 2020/21 fel y crybwyllwyd yng nghofnod 6b).

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2022 heb eu diwygio. |